# Cymdeithas Ddysgedig Cymru:

## Strategaeth 2023 – 2028

Mae'r Strategaeth hon yn esbonio uchelgeisiau ac amcanion strategol Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

# Rhagair

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a ffurfiwyd yn 2010, wedi'i sefydlu ei hun fel academi genedlaethol Cymru. Ein Cymrodyr yw craidd yr hyn yr ydym ni, ac mae ein Cymrodoriaeth bellach yn cynnwys dros 600 o'r arweinwyr a'r academyddion mwyaf anrhydeddus yn eu meysydd. Maent yn rhychwantu pob disgyblaeth, o'r byd academaidd hyd at fusnes a gwasanaethau cyhoeddus. Maent yn fyd-eang o ran eu lleoliad, ond yn unedig o ran eu cysylltiad â Chymru a'u dyhead i ddefnyddio eu harbenigedd i gefnogi cymdeithas yng Nghymru. Dros y degawd diwethaf, rydym wedi adeiladu cysylltiadau cryf â phrifysgolion Cymru, CCAUC, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill allweddol i gysylltu a hyrwyddo ymchwil Gymreig ymhlith partneriaid y DU a rhyngwladol, ac rydym wedi datblygu ein henw da fel llais annibynnol ac awdurdodol.

Mae'r cryfderau hyn wedi rhoi hunaniaeth unigryw inni. O'u cyfuno â'n strwythurau llywodraethu sefydledig, ein tîm o staff a'n sefyllfa ariannol, mae gennym sylfaen gynaliadwy i geisio tyfu dros y pum mlynedd nesaf - gyda ffocws ar gynyddu ein cyfraniad at gymdeithas. Yn ein strategaeth ar gyfer 2023-28 nodir ein cenhadaeth i ddefnyddio'r ased cenedlaethol hwn i greu effaith. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'n Cymrodyr i gyflawni hyn.



Yr Athro Hywel Thomas
CBE FRENG MAE PLSW FRS
***Y Llywydd***

Lluniwyd y strategaeth hon ar lefel uchel i gynnig fframwaith ar gyfer canlyn gweithgareddau presennol a chychwyn mentrau newydd. Fe'i cefnogir gan gynllun gweithgareddau a chynllun ariannol, a oruchwylir gan Bwyllgorau perthnasol y Gymdeithas, ac a gymeradwyir gan Gyngor y Gymdeithas. Bwriedir bod yn uchelgeisiol er mwyn i'r Gymdeithas allu parhau i fanteisio ar gyfleoedd newydd priodol wrth iddynt ddod i'r amlwg, os ydynt yn cefnogi'r genhadaeth a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y Cynllun Strategol hwn. Bydd angen i bob gweithgaredd weithredu oddi mewn i derfynau ariannol cyllideb y Gymdeithas. Efallai y bydd angen ystyriaeth a gwaith cynllunio manylach ar gyfer mentrau newydd cyn eu gweithredu, gan gynnwys cymeradwyaeth gan y Cyngor, lle bo'n briodol.

# Ein Cenhadaeth

Bydd hyrwyddo addysg, dysg, astudiaeth academaidd a gwybodaeth yn cyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt.

Fel Academi Genedlaethol Cymru, byddwn yn harneisio arbenigedd, profiad a chysylltiadau amlddisgyblaethol ein Cymrodoriaeth i hyrwyddo a datblygu cymuned ymchwil ac arloesi Cymru, ac i gefnogi'r defnydd o ymchwil ragorol ac amrywiol i ddatrys yr heriau o flaen Cymru ac o flaen y byd.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy:

**Gael effaith**
Sicrhau bod llunwyr polisi a dylanwadwyr yn cydnabod perthnasedd y Gymdeithas, gan ein croesawu a'n defnyddio fel ffynhonnell o gyngor arbenigol annibynnol y gellir ymddiried ynddo, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i ganfod atebion i heriau'r byd go iawn.

**Meithrin cydweithio**
Creu a chryfhau cysylltiadau amlddisgyblaethol, o fewn Cymru a thu hwnt, i wireddu buddion o sylfaen ymchwil ac arloesi Cymru, gan gynorthwyo drwy hynny i fynd i'r afael â materion cenedlaethol a byd-eang.

**Tyfu talent**
Eiriol dros ddiwylliant amrywiol a bywiog ymchwil Cymru a chefnogi amgylchedd sy'n gwneud Cymru yn lle gwych i fod yn ymchwilydd, fel y gallwn helpu i gadw a thyfu ein sylfaen wybodaeth bresennol a datblygu ein darpar arbenigwyr.

**Hyrwyddo cynhwysiant**
Adeiladu Cymdeithas groesawgar y mae ei Chymrodyr, a'u cyfraniadau, yn cynrychioli amrywiaeth ein cenedl; a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo cynhwysiant.

# Blaenoriaethau Strategol

## 1

### Cyfrannu at ddatrysiadau polisi mawr drwy gynnig cyngor annibynnol a galluogi cyfnewid gwybodaeth

#### Parhau i...

- Fod yn llais annibynnol, awdurdodol sy'n goleuo penderfyniadau mewn trafodaethau perthnasol ynghylch polisi.
- Defnyddio ein cysylltiadau a gweithio gyda'r llywodraeth, diwydiant, sefydliadau'r sector cyhoeddus ac eraill i gynyddu dealltwriaeth llunwyr polisi o bwysigrwydd ymchwil ragorol, ar draws pob disgyblaeth, o ran creu budd i Gymru.
- Meithrin ein cysylltiadau ag academïau cenedlaethol eraill, gan gynnwys Cynghrair yr Academïau Celtaidd, yn ogystal â phartneriaid rhyngwladol, i sicrhau bod gan Gymru ran allweddol mewn mentrau ac ymgyrchoedd ar raddfa'r DU.

#### Tyfu...

- Ein rôl fel cynullydd a brocer gwybodaeth er mwyn trafod a chraffu ar faterion cymhleth y byd go iawn. Cymhwyso'r mewnwelediadau arbenigol hyn i dyfu rôl ac enw da'r Gymdeithas am greu cyngor annibynnol am bolisi sy'n ennyn ymddiriedaeth, ac sy'n galluogi llunwyr polisi i fynd i'r afael â heriau ar raddfa Cymru a'r DU, ac yn fyd-eang.
- Cyfleoedd i ymchwilwyr ym mhob cam o'u gyrfa i gael dealltwriaeth well o bolisi a'i effaith ar eu gwaith, ac i gyfrannu at lunio polisi.
- Gwaith i gefnogi a hyrwyddo Astudiaethau Cymreig: ymchwilio i wybodaeth sy'n neilltuol a strategol bwysig i Gymru, a'i lledaenu.

## 2

### Creu amgylchedd sy'n cefnogi arbenigwyr Cymru yn y presennol a'r dyfodol.

#### Parhau i...

- Adeiladu carfan amrywiol o Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar (ECRs) yn ein Rhwydwaith ECRs a rhoi cyfleoedd arweinyddol i ECRs gymryd rhan weithredol yn natblygiad y Rhwydwaith.
- Dathlu gwerth ymchwil ragorol a chyfraniadau amrywiol, gan gynnwys drwy gefnogi a chynnal digwyddiadau a'n gwobrau medal blynyddol.
- Darparu cyllid a chymorth arall i gychwyn cysylltiadau rhyng-ddisgyblaethol ac ehangu phrosiectau cydweithredol ar draws Cymru.

#### Tyfu...

- Gallu'r sector ymchwil yng Nghymru i dyfu, arwain a chydweithredu, drwy ddatblygu ein partneriaeth â CCAUC (a CADY yn y tymor hwy) a thrwy gydweithio ag eraill i ddod yn rhan annatod o'r sector sy'n cefnogi datblygiad ymchwilwyr.
- Y defnydd o'n Cymrodyr i gefnogi'r cenedlaethau nesaf o ymchwilwyr, drwy hyrwyddo cydweithredu rhwng ymchwilwyr ym mhob cam o'u gyrfa ac ym mhob sector.
- Ein cefnogaeth tuag at ymchwilwyr yng Nghymru i gychwyn cydweithrediadau rhyng-ddisgyblaethol y tu allan i Gymru.

## 3

## Datblygu Cymrodoriaeth fwy amrywiol a gweithgar

### Parhau i...

- Gynnwys ystod eang o Gymrodyr ym mhob agwedd ar waith y Gymdeithas.
- Adolygu ein prosesau a'n proffil yn rheolaidd i fod mor groesawgar a chynhwysol â phosibl.
- Gwella amrywiaeth ein Cymrodyr yn ôl disgyblaeth a rhyw.

### Tyfu...

Ein hymgysylltiad â'r holl Gymrodyr, gan ganolbwyntio ar:

- Wella Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant: sicrhau ein bod yn groesawgar a chynhwysol i bawb a'n bod yn ymroi i annog Cymrodyr o grwpiau tangynrychioledig fel bod ganddynt lais yng ngwaith y Gymdeithas.
- Cymrodyr y tu allan i Gymru: cynnig ffordd werthfawr o gryfhau eu cysylltiad â Chymru a defnyddio eu lleoliadau fel asedau i gyflawni ein cenhadaeth.
- Ein cynnig o ran y Gymrodoriaeth: codi proffil buddion y Gymrodoriaeth ymhlith Cymrodyr presennol a darpar Gymrodyr, hyrwyddo cyfraniadau Cymrodyr a chreu cyfleoedd i gydweithio.

## 4

## Datblygu ein sefydliad

### Parhau i...

- Reoli cyllid y Gymdeithas, gan gynnwys ein buddsoddiadau, i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor y tu hwnt i hynny.
- Gwella a moderneiddio ein systemau a'n harferion sefydliadol, gyda ffocws neilltuol ar wneud defnydd gwell o ddata a datrysiadau digidol er mwyn bod yn sefydliad ystwyth ac ymatebol.
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Comisiwn Elusennau a'r holl ddeddfwriaeth arall berthnasol, gyda goruchwyliaeth ac arweiniad gan ystod amrywiol o Gymrodyr.
- Cefnogi datblygiad ein staff.

### Tyfu...

- Tîm effeithiol a chynhwysol, gydag ymagwedd strategol at ddatblygu staff er mwyn cyflawni ein strategaeth.
- Ein cyfathrebiadau, gan ganolbwyntio ar weithgareddau a chyfraniadau'r Gymdeithas, i godi ein proffil a sicrhau bod pobl yn deall, yn cydnabod ac yn dathlu ein gwaith.
- Cyllid o ystod amrywiol o ffynonellau i gynnal ein seilwaith tanategol a darparu ar gyfer gweithgareddau newydd neu benodol.
- Cynllun ar gyfer pencadlys gwirioneddol i Gymdeithas Ddysgedig Cymru ac adolygiad o enw'r Gymdeithas.
- Datblygiad polisïau mewnol sy'n peri ein bod yn sefydliad cyfrifol a moesegol a arweinir gan werthoedd, gan gynnwys ffocws ar y Gymraeg ac ar gynaliadwyedd amgylcheddol.

# Cysylltu â ni

Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cofrestrfa'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NS

(+44) 029 2037 6976 / 029 2037 6971 /
029 2037 5054 / 029 2037 6954

cddc@cymru.ac.uk

www.cymdeithasddysgedig.cymru

THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU